Nodwch y dylid gwneud cais am le yn yr ysgolion canlynol yn uniongyrchol i'r Pennaeth:

Ysgol	Pennaeth	Rhif cyswllt
Ysgol Bendigaid William Davies	Mrs Lucy Phillips	01492 577071
Ysgol Bodafon	Mr Trystan Lloyd-Owen	01492 577321
Ysgol Pen y Bryn	Ms Tabitha Sawyer	01492 531260
Ysgol San Sior	Mr Ian Keith Jones	01492 577140
Ysgol St Joseff	Mr James Wilkinson	01492 577160
Ysgol y Plas	Mrs Gwawr Mills	01492 680601

Rhaid dychwelyd ceisiadau am le mewn ysgolion y tu allan i'r sir at y Swyddog Derbyniadau yn yr Awdurdod Lleol perthnasol.

Os am wybodaeth bellach neu arweiniad, cysylltwch â:

Dr Lowri Vaughan Brown,

Pennaeth Gwasanaethau Addysg (Prif Swyddog Addysg)

Gwasanaethau Addysg CBS Conwy,

PO Box 1

Conwy, LL30 9GN

CONWY

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

DEWIS YSGOL I'CH PLENTYN

Sut i wneud cais am le Meithrin

DEWIS YSGOL AR GYFER EICH PLENTYN

Pryd i wneud cais

Os bydd eich plentyn yn 3 oed erbyn 31ain Awst 2023 – gwneud cais am le mewn dosbarth meithrin.

****DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU: 17eg CHWEFROR 2023****

Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried hyd at ar ôl y rhai a gafwyd erbyn y dyddiad cau.

I wneud cais:

⇒ lawrlwythwch ffurflen neu gwnewch gais ar-lein yn www.conwy.gov.uk/derbyniadau

⇒ lawrlwythwch ApConwy a llenwch ffurflen gan ddefnyddio'r Ap.

⇒ Pe bai'n well gennych lenwi ffurflen bapur, ffoniwch 01492 575031

Mae'n holl bwysig bod ffurflenni wedi'u llenwi yn cael eu dychwelyd naill ai ar-lein neu at y Gwasanaethau Addysg erbyn 17eg Chwefror 2023

Am ragor o wybodaeth:

Mae Dogfen Wybodaeth Ysgolion a Gwasanaethau Addysg Conwy yn cynnwys:

- rhestr o bob ysgol yng Nghonwy
- manylion am y drefn derbyniadau newydd a dyddiadau allweddol
- sut mae ceisiadau'n cael eu hystyried ar gyfer ysgolion sydd wedi'u gor-danysgrifio
- sut fydd eich dymuniad yn cael ei brosesu.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y ddogfen hon cyn llenwi eich ffurflen gais.
Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Addysg Conwy:
www.conwy.gov.uk/gwybodaethysgolion
ac mae'n cynnwys manylion cyswllt holl ysgolion Conwy.

Er mwyn eich helpu gyda'r penderfyniad ewch :

- wefannau ysgolion unigol fel y rhestrwyd yn Nogfen Ysgolion a Gwasanaethau Addysg Conwy
- www.estyn.gov.uk i weld adroddiadau arolygiadau diweddar

Dylech fod yn ymwybodol na fydd derbyn plentyn i'r Dosbarth Meithrin yn golygu y byddant yn cael eu derbyn yn awtomatig i'r Dosbarth Derbyn. Bydd angen i chi wneud cais arall am le yn y Dosbarth Derbyn y flwyddyn nesaf. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol (ar yr amod y dychwelir ceisiadau cyn y dyddiad cau).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Swyddog Derbyniadau ar 01492 575031

Siart Llif y Drefn Derbyn a Dyddiadau Pwysig

Erbyn 26ain Medi 2022
- Ceisiadau ar-lein yn agor
- Ffurflenni Dewis Rhieni ar gael gan y Gwasanaethau Addysg (01492 575031)
- Llyfrynnau gwybodaeth ar gael ar lein.

Erbyn 17eg Chwefror 2023
- Dyddiad olaf dychwelyd y ffurflen Dymuniad Rhieni neu
- Dyddiad olaf ar gyfer ceisiadau ar-lein

4ydd Mai 2023
- Cyhoeddi llythyr yn cynnig neu wrthod lle.

Tymor yr Haf 2023
- Trefniadau i drafod gwrthod gydag uwch swyddogion addysg.
- Gwneud cais i Ysgol arall

Tymor yr Haf 2023
- Ysgolion yn trefnu diwrnodau anwytho, cyfarfodydd rhieni i baratoi ar gyfer cychwyn ym Medi.